# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

## NAFWC 2008 (Papur 1A)

**Dyddiad:** 18 Medi 2008
**Amser:** 1:00pm
**Lleoliad:** 4B
**Enw'r awdur a rhif cyswllt:** Dianne Bevan, est 8991

## Cyllideb Ddrafft 2009-10

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethlol Cymru. Penderfynwyd ei fod yn addas i'w gyhoeddi ar ôl ystyriaeth felly yn unol â rheolau'r Cynulliad ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir cyhoeddi na datgelu cynnwys y papur hwn ymlaen llaw gan y gallai hyn niweidio trafodaethau'r Comisiwn***

**Diben a chrynodeb o'r materion**

**1. Cytuno ar Gyllideb Ddrafft 2009-10, i'w gosod erbyn 24 Medi 2008.**

**Argymhellion (yn cynnwys terfynau amser blaenoriaeth)**

**2. Bod y Comisiwn yn cytuno ar Gyllideb Ddrafft 2009-10 fel y'i gosodir yng Nghynigion y Gyllideb Ddrafft 2009-10.**

**Trafodaeth**

Cefndir

3. Gan adeiladu ar yr ystyriaeth o gynigion dangosol ym mis Mai 2008 ar gyfer llywio amcanion y Comisiwn, rhoddodd y Comisiwn gyfeiriad amlwg wrth ystyried ei Flaenoriaethau Strategol a Chyllideb 2009-10 yn ei gyfarfod ar 8 Gorffennaf:
   - Tynnu costau amcangyfrifedig *i-change* o'r gyllideb ddrafft ac ystyried cais am adnoddau ategol pan fydd y costau a'r canlyniadau yn fwy clir;
   - Tynnu'r cynnig i adnewyddu a moderneiddio swyddfeydd Aelodau yn Nhŷ Hywel;
   - Cymeradwyo cynigion gwariant eraill a nodir yn y papur, yn cynnwys yr elfennau TGCh hanfodol y tu allan i'r prosiect *i*-change;
   - Cryfhau'r cyfeiriadau at effeithlonrwydd;
   - Cyfyngu cynyddu cyllideb 2009-10 i lefel sy'n ddigon i ariannu'r blaenoriaethau hyn.

4. Yn arbennig, nod y Comisiynwyr y pwysau ariannol tynnach, yn y sector cyhoeddus a'r economi ehangach, gan gydnabod hefyd bod swyddogaeth gynyddol y Cynulliad a disgwyliadau'r Aelodau a'r byd y tu allan ohono yn rhoi pwysau ar gyfer mwy o adnoddau.

Cyllideb ddrafft 2009-10

5. Mae'r Gyllideb Ddrafft a argymhellwyd i Gomisiynwyr ei hystyried yn galw am **gynnydd o £2.217m (4.8%) ar gyfer 2009-10**. Mae hyn yn cynnwys dwy brif ran:
   - £1.174m (2.5%) sy'n ymwneud â chodiadau chwyddiant ar gyfer tâl a lwfansau'r Aelodau, tâl staff y Comisiwn a nwyddau/gwasanaethau;
   - £1.043m (2.3%) sy'n cyfrannu at gynigion gwariant newydd. Mae cyfanswm y cynigion hyn yn £2.157m, ond mae'r effaith yn is na hynny drwy ddefnyddio arbedion o fesurau effeithlonrwydd (£0.239m) a gwariant arall anghylchol yng nghyllideb 2008-09 (£0.875m). Rhestrir y cynigion yn Atodiad A.

6. Mae'r cynnydd o 4.8% a gynigir yn unol â chynnydd 2009-10 yn y setliad 3-blynedd ar gyfer Cymru sy'n ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru, Comisiwn y Cynulliad a sefydliadau eraill a gaiff eu hariannu'n uniongyrchol. O fewn hyn, mae cynnydd o tua 2.9% wedi cael ei ddyrannu'n dybiannol i Lywodraeth Cynulliad Cymru er bod hyn yn amodol ar y gyllideb a gyflwynir gan y Llywodraeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ni osodir y cyllidebau ar gyfer llywodraeth leol a byrddau iechyd lleol tan ddiwedd 2008/dechrau 2009 felly ni ellir ond amcangyfrif y cynnydd yn ôl y flwyddyn ddiwethaf, sef 3.6% a 4.4% yn y drefn honno.

7. Gwahoddir y Comisiynwyr i ystyried y gyllideb ddrafft, fel y nodir yn y ddogfen amgaeedig.

## Materion Llywodraethu

### Goblygiadau ariannol

8. Byddai Cynigion Cyllideb Ddrafft 2009-10 yn cynyddu cyllideb adnoddau net y Comisiwn 4.8% i £48.398m.

### Asesiad Risg

9. Mae egwyddorion Latimer House yn cydnabod y dylai Senedd gael y rhyddid i benderfynu ar ei chyllideb ei hun, ond mae'r Comisiynwyr yn ymwybodol o'r risgiau posibl i'w henw da wrth gynnig unrhyw gynnydd mewn cyllideb sydd y tu hwnt i amgylchedd ehangach y sector cyhoeddus. Ar y llaw arall, rhaid i'r Comisiwn fod mewn sefyllfa i fodloni dyheadau'r Cynulliad a'i gyfrifoldebau cynyddol. Mae'r Comisiwn wedi codi'r posibilrwydd o wneud cais am Gyllidebau Ategol os bydd angen yn ystod 2009-10. Y risg yw na fyddant ar gael pan fydd eu hangen gan ei bod yn bosibl y byddant wedi eu hymrwymo i bethau eraill.

10. Gellir lleddfu'r risgiau hyn drwy fod yn agored o'r dechrau o ran sut y bwriada'r Comisiwn ddefnyddio'i adnoddau, fel y nodir yn y gyllideb ddrafft amgaeedig. Mae proses gyllidebu gadarn a rhaglen effeithlonrwydd, eglurder o ran meysydd gonestrwydd, a thryloywder rhwng cynlluniau gwario a chyflawni amcanion strategol yn dangos y defnydd gorau o adnoddau. Mae'r cynnig i gynyddu'r gyllideb wedi cael ei gadw i 4.8% ar gyfer 2009-10, sy'n gyfartal â'r cynnydd cyffredinol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru.

### Cydymffurfio

11. Paratowyd y papur hwn i gydymffurfio â Deddf 2006 a Rheolau Sefydlog (27.7-27.9) fel y maent yn ymwneud â chyllideb Comisiwn y Cynulliad.

| **Diben** *(Gwasanaeth)* | ***Y prif nod strategol a gefnogir*** | Cyfalaf Refeniw | **Amcangyfrif 2009-10 £000** | **Amcangyfrif 2010-11 £000** | **Amcangyfrif 2011-12 £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWELLA EFFEITHLONRWYDD A DARPARIAETH DRWY FUDDSODDI MEWN SYSTEMAU TG** | | | | | |
| **Rhaglen Adnewyddu Strategol TGCh** – yn 2009-10, bydd angen adnewyddu'r 229 o bodiau gwybodaeth a ddefnyddir gan y cyhoedd yn orielau'r Senedd. Mae'r rhaglen ar gyfer y dyfodol yn cynnwys agweddau eraill ar gyfer yr isadeiledd TGCh yn eu tro. *(TGCh)* | *Hyrwyddo ac ehangu diddordeb mewn datganoli* | Cyfalaf | 229 | 1,374 | 2,027 |
| **Adnewyddu'r ceblau cylch darlledu** yn Nhŷ Hywel i baratoi ar gyfer teledu digidol, sy'n defnyddio signalau gwahanol ac sy'n cynnig gwasanaethau ychwanegol i'r system analog bresennol a osodwyd ym 1999. Byddai defnydd o'r gwasanaethau ychwanegol yn gyfyngedig heb y buddsoddiad hwn. *(TGCh)* | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Cyfalaf | 200 | - | - |
| Prosiect hanfodol **Meddalwedd deddfwriaeth (cam II),** ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer drafftio Mesurau'r Cynulliad. *(Gwasanaethau Deddfwriaeth/Siambr)* | *Ymateb hyderus i newid cyfansoddiadol* | Refeniw | 100 | 20 | 20 |

| **Diben** *(Gwasanaeth)* | ***Y prif nod strategol a gefnogir*** | Cyfalaf Refeniw | **Amcangyfrif 2009-10 £000** | **Amcangyfrif 2010-11 £000** | **Amcangyfrif 2011-12 £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu **System Reolaeth Busnes a Phwyllgorau** newydd i ddisodli'r systemau presennol ar wahân a'r prosesau a gaiff eu gwneud â llaw (ynghyd â'r risgiau perthnasol), ar gyfer amserlennu, rheoli a chofnodi busnes y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau. Caiff arbedion o ran amser y staff eu hailfuddsoddi drwy roi gwell cymorth i bwyllgorau. *(Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Siambr / Gwasanaeth Deddfwriaeth)* | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Capital 2009-10 | 75 | 15 | 15 |
| Mae angen **System Reoli Gwybodaeth** sy'n well, sy'n syml ond sy'n effeithiol er mwyn rheoli'r wybodaeth a ddefnyddir a'r adroddiadau a ddarperir gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau. Bydd y prosiect hwn yn cychwyn yn ystod 2008-09 a bydd yn arwain at gael gafael ar wybodaeth yn well a'i chadw, gan sicrhau effeithlonrwydd o ran arbedion amser y staff i gael eu hailfuddsoddi mewn gwaith ymchwil. *(Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau)* | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Cyfalaf 2009-10 | 75 | 15 | 15 |

| **Diben** *(Gwasanaeth)* | ***Y prif nod strategol a gefnogir*** | Cyfalaf Refeniw | **Amcangyfrif 2009-10 £000** | **Amcangyfrif 2010-11 £000** | **Amcangyfrif 2011-12 £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Meddalwedd i sicrhau y caiff y gwaith o **weinyddu Lwfansau Aelodau** ei wneud yn awtomatig er mwyn gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd hyn yn datrys yr angen i ddyblygu data a gofnodir rhwng gwahanol systemau anghydnaws, ac felly'n arbed y costau ychwanegol a delir o'r arian wrth gefn nad yw wedi'i ddyrnau. *(Tâl a Lwfans Aelodau)* | *Dangos parch, gonestrwydd a llywodraethu da* | Cyfalaf 2009-10 | 30 | 6 | 6 |
| **BUDDSODDI MEWN SYSTEMAU TG – Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG** | | | **709** | **1,430** | **2,083** |

| **Diben** *(Gwasanaeth)* | ***Y prif nod strategol a gefnogir*** | Refeniw Cyfalaf | **Amcangyfrif 2009-10 £000** | **Amcangyfrif 2010-11 £000** | **Amcangyfrif 2011-12 £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **CRYFHAU YMGYSYLLTIAD** | | | | | |
| **10fed pen-blwydd** - rhaglen 12 mis o ddathliadau *(Cysylltiadau Allanol)* | *Hyrwyddo ac ehangu diddordeb mewn datganoli* | Refeniw | 150 | - | - |
| Darparu gwell **gwasanaethau allgymorth,** yn cynnwys rhaglen Dyfodol y Lanfa *(Cysylltiadau Allanol)* | *Hyrwyddo ac ehangu diddordeb mewn datganoli* | Refeniw | 100 | 150 | 150 |

| **Diben** *(Gwasanaeth)* | ***Y prif nod strategol a gefnogir*** | Refeniw Cyfalaf | **Amcangyfrif 2009-10 £000** | **Amcangyfrif 2010-11 £000** | **Amcangyfrif 2011-12 £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu **rhaglen e-ddemocratiaeth** gynhwysfawr er mwyn ehangu enw da'r Cynulliad fel un o'r sefydliadau seneddol mwyaf blaenllaw ac arloesol yn y byd drwy'r gwaith o gysylltu â phobl Cymru. *(Cysylltiadau Allanol)* | *Hyrwyddo ac ehangu diddordeb mewn datganoli* | Refeniw | 75 | 75 | 75 |
| Cyflwyno manteision y cynllun **Operation Black Vote** *(Yr Uned Gorfforaethol)* | *Hyrwyddo ac ehangu diddordeb mewn datganoli* | Refeniw | 40 | 40 | 40 |
| **CRYFHAU CYSYLLTIAD – Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG** | | | **365** | **265** | **265** |

## GWELLA CYFLEUSTERAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu **trefniadau archifo** newydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. *(Yr Uned Gorfforaethol)* | *Dangos parch, gonestrwydd a llywodraethu da* | Refeniw | 300 | 150 | 150 |
| Ariannu prosiectau i **leihau allyriadau carbon** o ystâd y Cynulliad, yn unol â'n targedau amgylcheddol. *(Cyfleusterau)* | *Gweithio'n gynaliadwy* | Cyfalaf | 100 | 100 | 100 |

| **Diben** *(Gwasanaeth)* | ***Y prif nod strategol a gefnogir*** | Refeniw Cyfalaf | **Amcangyfrif 2009-10 £000** | **Amcangyfrif 2010-11 £000** | **Amcangyfrif 2011-12 £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnewyddu a gwella effaith weledol ardaloedd cyffredin a chraidd yr adeiladau ar gyfer y **dathliadau 10fed pen-blwydd**. *(Cyfleusterau)* | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Refeniw | 100 | - | - |
| Cryfhau capasiti ar draws y gwasanaethau cymorth gweithrediadol; swyddi newydd. | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Refeniw | 300 | - | - |
| **GWELLA CYFLEUSTERAU – Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG** | | | **800** | **250** | **250** |

## CYNORTHWYO'R CYNNYDD YN Y RHAGLEN DDEDDFWRIAETHOL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cryfhau capasiti yn yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol gyda dau gyfreithiwr ychwanegol | *Darparu'r gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol* | Refeniw | 150 | **-** | **-** |

| **Diben** *(Gwasanaeth)* | ***Y prif nod strategol a gefnogir*** | Refeniw Cyfalaf | **Amcangyfrif 2009-10 £000** | **Amcangyfrif 2010-11 £000** | **Amcangyfrif 2011-12 £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYNORTHWYO'R CYNNYDD YN Y RHAGLEN DDEDDFWRIAETHOL – Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG** | | | **150** | **-** | **-** |
| | | | | | |
| **CYNYDDU'R GYLLIDEB WRTH GEFN** | | | **133** | **-** | **-** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM Y GWARIANT NEWYDD ARFAETHEDIG** | | | **2,157** | **1,945** | **2,598** |